

Ymddieithrio o'r ysgol ymhlith disgyblion sy'n profi digartrefedd yng Nghymru

Prif awduron: Dr Ian Thomas a'r Athro Peter Mackie

Dyddiad: Ebrill 2025

Crynodeb

Mae'r Cip ar Ddata hwn yn archwilio'r cysylltiad rhwng ymddieithrio o'r ysgol a digartrefedd ieuencid. Dadansoddodd tîm tai a digartrefedd YDG Cymru ddata o offeryn sgrinio a oedd yn ffurfio rhan o gynllun atal digartrefedd ieuencid yng Nghymru, a elwir yn Upstream Cymru. Mesurwyd tri math o ymddieithrio o'r ysgol: gwaharddiadau/ataliad, triwntiaeth, a chamymddwyn.

Roedd lefelau ymddieithrio o'r ysgol yn uwch ymhlith disgyblion a oedd wedi profi digartrefedd o gymharu â disgyblion nad oedd wedi profi digartrefedd. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod cyfran fawr o ddisgyblion sy'n profi digartrefedd yn ymgysylltu'n gymharol â'r ysgol.

Mae gan ganfyddiadau'r tîm oblygiadau ar gyfer targedu a gweithredu ymyriadau atal digartrefedd ieuencid mewn ysgolion.

Yr hyn a wnaethom

Cynhaliwyd dadansoddiad eilaidd gan ddefnyddio data o asesiadau offer sgrinio Upstream Cymru a gwblhawyd rhwng Medi 2020 a Mai 2024. Mae gan ysgolion sy'n cymryd rhan yn Upstream Cymru yr hyblygrwydd i benderfynu pa grwpiau blwyddyn sy'n ymgymryd â sgrinio. Cynhaliodd y rhan fwyaf o ysgolion sgrinio gyda Blynnyddoedd 7 i 11 (e.e. 11 i 16 oed). Mae 12 ysgol yn rhanbarth De Cymru a'r Cymoedd wedi cymryd rhan yn Upstream Cymru.

Gall disgyblion gwblhau asesiad offer sgrinio sawl gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd, ac mewn

Cefndir

Rhoddir mwy o sylw i atal o fewn polisi ac arfer digartrefedd. Nod atal yw ymyrryd yn gynnar i ddargyfeirio pobl oddi wrth ddigartrefedd, neu i sicrhau bod eu digartrefedd yn fyr ac nad yw'n digwydd eto. Yng Nghymru, mae Upstream Cymru yn un dull ataliol o'r fath, gyda'r nod o nodi a gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae Upstream Cymru yn defnyddio offeryn sgrinio cyffredinol, a gwblhawyd yn ystod amser ysgol, i nodi disgyblion a allai fod mewn perygl. Mae'r offeryn yn gyffredinol yn yr ystyr bod pob disgybl o fewn grŵp blwyddyn ysgol yn cael ei annog i gwblhau asesiad. Mae'r offeryn sgrinio yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys ymgysylltu â'r ysgol, llesiant, gwydnwch, a phrofiadau o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc a theuluoedd.

Drwy ofyn yn benodol i bobl ifanc am eu bywydau cartref, mae ymagwedd Upstream Cymru yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddisgrifio eu sefyllfa eu hunain. Mae 'sgrinio cyffredinol' yn wahanol i ddulliau presennol sy'n defnyddio ymddygiad a chanlyniadau gweladwy yn yr ysgol i ganfod risg bosibl o ddigartrefedd¹.

Nod y dadansoddiad hwn oedd archwilio'r cysylltiad rhwng arwyddion gweladwy o ymddieithrio o'r ysgol a digartrefedd ieuencid. Wrth wneud hynny, mae'n cloddio'n ddyfnach i'r rhesymeg o ddefnyddio ymddieithrio gweladwy o'r ysgol fel sail i nodi pobl ifanc y gallai fod angen cymorth arnynt oherwydd digartrefedd.

¹ <https://www.gov.wales/youth-engagement-and-progression-framework-guidance-early-identification-html>

gwahanol flynyddoedd. Felly, cadwyd yr asesiad offeryn sgrinio cyntaf a gwblhawyd gan ddisgybl yn y dadansoddiad hwn, a oedd yn cynnwys 4,550 o asesiadau disgyblion ar ôl glanhau.

Mesur digartrefedd ieuenctid

Gofynnwyd i ddisgyblion a oeddent erioed, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi cysgu i ffwrdd oddi wrth eu rhieni neu warcheidwaid oherwydd iddynt gael eu troi allan, rhedeg i ffwrdd, neu nad oeddent yn teimlo'n ddiogel wrth aros. Nodwyd bod disgyblion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn yn profi digartrefedd ieuenctid.

Mesurau ymddieithrio o'r ysgol

Gofynnwyd i ddisgyblion nodi ar eitemau 5-pwynt Likert—'Cytuno'n gryf' i 'Anghytuno'n gryf'—a oeddent yn mynd i lawer o drafferth yn yr ysgol ac a oeddent yn hepgor yr ysgol yn rheolaidd. Nodwyd bod disgyblion a ymatebodd naill ai 'Cytuno'n gryf' neu 'Cytuno' yn mynd i lawer o drafferthion yn yr ysgol ac wedi chwarae triwant i raddau gwrthrychol. Gofynnwyd i ddisgyblion hefyd a oeddent erioed wedi cael eu diarddel neu eu gwahardd o'r ysgol, a gallent naill ai ddewis 'Do', 'Naddo', neu 'Ddim yn gwybod'. Cynhyrchwyd dangosydd deuaidd o ataliad/gwaharddiad, wedi'i osod i un lle dywedodd y disgybl 'Do' iddo gael ei wahardd/atal.

Gall y cyfuniad o wahanol elfennau o ymddieithrio fod yn arwydd i addysgwyr bod angen cymorth ar ddisgybl. Crëwyd mesur o ddwyyster ymddieithrio felly trwy gyfrif nifer y meysydd yr oedd disgybl wedi ymddieithrio ynddynt, yn amrywio o 0 i 3 maes.

Dadansoddiad

Defnyddiwyd croesdablu – tablau sy'n dangos y berthynas rhwng dau newidyn neu fwy – i archwilio canran y disgyblion sy'n adrodd am bob un o'r tri math o ymddieithrio o'r ysgol, a rhoi dadansoddiad o ddwyyster yr ymddieithrio, yn ôl a oedd disgyblion wedi profi digartrefedd. Defnyddiwyd [atchweliadau logistaidd](#) i asesu a oedd profi digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn cynyddu'r tebygolrwydd o adrodd am chwarae triwant, mynd i drafferthion, a gwaharddiad/atal o'r ysgol. Er mwyn cadw natur cyfrif y mesur dwyster ymddieithrio, defnyddiwyd [atchweliad Poisson](#) i archwilio a oedd profi digartrefedd ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu nifer y meysydd ymddieithrio. Defnyddiwyd toriad o $p < 0.05$ i benderfynu a oedd cysylltiadau yn ystadegol arwyddocaol ai peidio.

Yr hyn a ganfuom


Mae Tabl 1 yn darparu crynodeb o fynychder cyffredinol digartrefedd ieuenctid, y tri dangosydd ymddieithrio o'r ysgol, a dwyster ymddieithrio ar gyfer y sampl. **Roedd 6% o ddisgyblion (n = 291) wedi profi digartrefedd ieuenctid**, h.y. wedi gorfod cysgu i ffwrdd o'u cartref ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Amrywiai cyffredinolrwydd y ffurfiau unigol o ymddieithrio o'r ysgol, gyda 7% o ddisgyblion yn hepgor ysgol, 10% yn mynd i lawer o drafferth, a 12% o ddisgyblion yn dweud eu bod wedi eu gwahardd/atal. At ei gilydd, ni nododd **78% o ddisgyblion yn y sampl unrhyw un o'r mathau o ymddieithrio o'r ysgol a fesurwyd yn yr astudiaeth hon**, gyda lleiafrif yn adrodd am bob un o'r tri math (1%).

Tabl 1 - Crynodeb o ddigartrefedd ieuenctid ac ymddieithrio o'r ysgol ymhlith disgyblion yn y sampl.

	n	%
Digartrefedd ieuenctid a brofwyd	291	6
Gwahardd/atal o'r ysgol	550	12
Hepgor ysgol yn rheolaidd	339	7
Mynd i lawer o drafferth yn yr ysgol	469	10
Nifer y meysydd o ymddieithrio o'r ysgol:		
0	3552	78
1	701	15
2	234	5
3	63	1

Adroddodd disgyblion a oedd wedi profi digartrefedd ieuenctid gyfraddau uwch o waharddiadau (35% yn erbyn 11%), chwarae triwant (22% yn erbyn 6%), a mynd i lawer o drafferth (27% yn erbyn 9%), o gymharu â'r rhai nad oeddent yn adrodd am ddigartrefedd (Ffigur 1). Awgrymodd atchweliad logistaidd fod **profi digartrefedd yn cynyddu'r tebygolrwydd o adrodd am waharddiadau², chwarae triwant³, a mynd i lawer o drafferth⁴** o gymharu â disgyblion nad oeddent wedi profi digartrefedd, gyda'r canfyddiadau hyn yn ystadegol arwyddocaol.


Ffigur 1 - Canran y disgyblion sy'n adrodd eu bod wedi ymddieithrio o'r ysgol, yn ôl math o ymddieithrio a digartrefedd ieuenctid yn y flwyddyn ddiwethaf.



² Cymhareb Ods (cyfwng hyder 95%) = 4.6 (3.5 - 6.0); p < 0.001
³ Cymhareb Ods (cyfwng hyder 95%) = 4.2 (3.1 - 5.7); p < 0.001
⁴ Cymhareb Ods (cyfwng hyder 95%) = 3.8 (2.9 - 5.0); p < 0.001

O ran dwyster yr ymddieithrio (Ffigur 2), roedd 52% o ddisgyblion a brofodd ddigartrefedd yn dangos rhyw fath o ymddieithrio o'r ysgol, o gymharu ag 20% o'r disgyblion nad oeddent yn ddigartref. Roedd yn ymddangos bod dwyster ymddieithrio hefyd yn fwy amlwg ar gyfer disgyblion sy'n profi digartrefedd ieuenctid: yn fras 5% o ddisgyblion nad oeddent wedi profi digartrefedd ieuenctid â dau fath neu fwy o ymddieithrio, o gymharu â 25% o ddisgyblion digartref ifanc. Canfu atchweliad Poisson fod gan ddisgyblion a oedd wedi profi digartrefedd gyfrif uwch o feysydd o ymddieithrio o gymharu â disgyblion nad oeddent wedi profi digartrefedd, gyda hyn yn gysylltiad ystadegol arwyddocaol⁵.

Ffigur 2 - Nifer o feysydd o ymddieithrio o'r ysgol, oherwydd digartrefedd ieuenctid yn y flwyddyn ddiwethaf.



Pam mae'n bwysig

Mae digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn broblem sylweddol yng Nghymru, gyda bron i 6,500 o bobl ifanc (16 i 24 oed) yn mynd at eu hawdurdod lleol am gymorth yn 2023/24. Mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod symud ymyriad i atal ac i mewn i ysgolion yn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n profi digartrefedd⁶. Mae targedu atal digartrefedd yn gywir mewn ysgolion yn bwysig er mwyn lleihau cyfleoedd a gollwyd i ymgysylltu â disgyblion sydd mewn perygl cyn profi digartrefedd.

Mae'r dadansoddiad newydd hwn yn cefnogi tystiolaeth sy'n bodoli eisoes o'r cysylltiad rhwng digartrefedd pobl ifanc ac ymddieithrio o'r ysgol. Adroddodd disgyblion a oedd wedi profi digartrefedd gyfraddau llawer uwch o bob math o ymddieithrio o'r ysgol a fesurwyd yn y dadansoddiad.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod 48% o ddisgyblion a oedd wedi profi digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn ymgysylltu'n gymharol â'r ysgol—gan ddangos dim o'r arwyddion o ymddieithrio a fesurwyd yn y dadansoddiad hwn. Mae'n annhebygol felly y byddai'r disgyblion digartref hyn yn cael eu hadnabod gan addysgwyr ar sail ymddieithrio gweladwy yn unig. Y goblygiad allweddol yw bod holi'n uniongyrchol am fywydau cartref gan ddefnyddio offeryn sgrinio o bosibl yn ddull llawer mwy effeithiol o nodi disgyblion sydd mewn perygl o ddigartrefedd neu sy'n profi digartrefedd nag y gellir ei gasglu gan ymddygiad gweladwy.

⁵ Cymhareb Cyfradd Mynychder (cyfwng hyder 95%) = 3.3 (2.8 - 3.8); $p < 0.001$

⁶ <https://upstreamaustralia.org.au/project/the-geelong-project-interim-report-2016-2017/>

Cynhyrchwyd gan YDG Cymru

Gwefan: YDGCymru.org

Twitter: [@ADR_Wales](https://twitter.com/ADR_Wales)

Mae YDG Cymru yn uno arbenigwyr o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd ag ystadegwyr, gwyddonwyr data ac ymchwilwyr cymdeithasol o Lywodraeth Cymru. Mae'r technegau dadansoddi data sy'n torri tir newydd a'r rhagoriaeth ymchwil a ddatblygwyd, ynghyd â'r Gronfa Ddata SAIL fyd-enwog - sy'n brosesydd ardystiedig yn unol â Deddf yr Economi Ddigidol 2017 - yn golygu y gellir darparu ymchwil cadarn, diogel ac addysgiadol a all lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol yng Nghymru. Mae rhaglen waith YDG Cymru yn cydfynd â'r themâu blaenoriaeth a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae YDG Cymru yn rhan o'r Cyngor Economaidd ac Ymchwil Cymdeithasol (rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU) wedi'i gyllido gan YDG y DU (grant ES/W012227/1).

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â
Cathrine.E.Richards@Swansea.ac.uk

Partneriaid YDG Cymru

